

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion cyfarfod rithiol 11 Ionawr 2022 a gynhaliwyd drwy ddefnyddio offer digidol Zoom am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Iwan Huws		
Daniel Williams	Iestyn Harris	
Dafydd Huws	Eifion Williams	
Nerys John	Cynog Prys	
Emyr Gareth	Gareth Griffiths – Cynghorydd Sir	
Llŷr Evans		
1.0	GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU	
	Agorwyd y Cyfarfod yn ffurfiol gan y Cadeirydd Iwan Huws gan ddymuno cyfarchion blwyddyn newydd dda i bawb. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Casi Roberts a'r Cynghorydd Lliwen Griffith-Williams	
2.0	ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR	
2.1	Nid oedd adroddiad ffurfiol wedi ei baratoi. Fe gyfrannodd y Cynghorydd Sir i'r eitemau lle'r oedd ganddo ddiweddariad i'w adrodd.	
3.0	DATGAN DIDDORDEB	
	Dim	
4.0	CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL	
4.1	Cyflwynwyd y gwariant ar gyfer mis Rhagfyr 2021 ac eglurwyd y sefyllfa ariannol. Derbyniwyd y gwariant a'r adroddiad ariannol.	
4.2	Cyflwynwyd cyllideb drafft. Gan fod yr is-bwyllgor cyllid wedi cyfarfod i ystyried y gyllideb, rhoddwyd eglurhad trylwyr gan y Cynghorydd Daniel Williams - gweler atodiad 1. Beth oedd yn amlwg ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol yma ar flwyddyn ariannol ganlynol yw bod gwariant cysylltiedig â'r cae chwarae yn fwy na ddisgwyliwyd ac oherwydd hyn bydd yr arian estynedig yn y cyfrif cyffredinol yn mynd i fod yn isel iawn ac efallai bydd angen defnyddio rhywfaint o'r cyfrif cadw. Er mwyn trio peidio a defnyddio'r arian cadw trafodwyd codi'r praesept a phenderfynwyd codi'r praesept i £44k. Roedd hyn yn godiad o £4.33 ar bob aelwyd. Byddai'r £4K yn sicrhau bod arian ar gyfer talu am wasanaeth y toiledau cyhoeddus am y flwyddyn ariannol 2022-2023.	CLERC/CYLLID
5.0	CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI	
5.1	Cadarnhawyd Cofnodion mis Rhagfyr 2021 fel rhai cywir.	CLERC
5.2	Parcio Hen Gei Llechi - Dim cyfarfod wedi bod gan Tregwylan hyd yma. Bydd y mater yn cael ei godi gan Y Cynghorydd Iwan Hughes. Bydd unrhyw ddatblygiad yn y mater yn cael ei adrodd yn ôl at y Cyngor maes o law.	CLERC/IH
5.3	Gwaith Priffyrdd – i. Wal Gynnal Hen Gei Llechi - Y Clerc wedi ysgrifennu at y Bennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol eto gyda chais unai i ddod o hyd i'r perchennog neu i wneud y gwaith heb ragfarn. Dim ymateb wedi ei dderbyn. ii. Y Ffordd gyferbyn a'r feddygfa - dim ymateb	CLERC

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	<p>pellach wedi bod ond bod arolygydd y ffordd am gadw llygaid ar y sefyllfa.</p> <p>iii. Gullies - cais wedi mynd gogyfer cael gwybod amserlen glanhau gullies Y Felinheli - dim ymateb wedi bod.</p> <p>iv. Golau Cerrig yr Afon – adroddwyd bod y lamp yn ei lle ond nad oedd golau yn gweithio arni hyd yma.</p>	
5.4	Llwybrau - giât ar y Lon Las wedi eu tynnu i lawr ar gyfer ei thrwsio. Roedd adroddiad wedi dod i law bod angen clo ar y giât pen arall i'r Lon Las ger yr unedau gan fod honiad o feiciau modur yn mynd ar y Lon Las.	
5.5	Cae Chwarae - y gwariant hyd yma ar y Cae Chwarae yn £12432.00. Fe gyflwynodd y Cynghorydd Emyr Gareth adroddiad llafar ar y mater gan egluro'r sefyllfa bresennol. Mae cyfarfod wedi ei drefnu gogyfer bore dydd Iau gyda'r cwmni oedd yn gallu ymgymryd â'r gwaith o fewn y flwyddyn ariannol yma. Roedd gwahoddiad i unrhyw un oedd eisiau bod yn bresennol i fod yn y cyfarfod safle. Roedd y Cadeirydd yn gallu bod yn bresennol. Roedd y Cyngor yn awyddus i wybod os oedd yr offer oedd wedi ei dderbyn yn gyflawn ar gyfer ei osod. Bydd y Cynghorydd Emyr Gareth yn gwneud cais i'r cwmni sicrhau bod popeth sydd ei angen wedi ei dderbyn. Gobeithir bydd dim fwy o gostau. Mae'r cwmni yn gofyn am 50% o'r pris fel blaendal. Cytunwyd i'r Clerc anfon ymlaen y blaendal.	CLERC/EG/IH
5.6	Safle Moria - nid oes cyfarfod safle wedi bod rhwng y Cadeirydd a'r Contractwr gerddi. Oherwydd y sefyllfa ariannol y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ni ellir caniatáu gwariant ar y safle ar hyn o bryd, felly mae'r cynllun yn cael ei roi yn ei ôl. Bwriad y Cyngor i'w gwneud rhywbeth ar y safle pan fydd y sefyllfa ariannol yn caniatáu. Bydd ymweliad safle yn cael ei drefnu ar gyfer y cynghorwyr i weld beth allai i wneud rhyngddynt pan fydd y tywydd wedi gwella.	CLERC
5.7	Maes Parcio - cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Daniel Williams bod un car am ei sgrapio a bod y llall yn disgwyl rhannau er mwyn iddo fedru cael ei symud. Mae un arall hefyd yno ers dros flwyddyn. Mae perchennog y car yn adnabyddus felly am y tro bydd y Cynghorydd yn gwneud cais anffurfiol i'r perchennog. Efallai bydd cyfle yn y Cyngor newydd i osod polisi gogyfer ceir sydd yn cael eu gadael yn y maes parcio.	CLERC
6.0	CEISIADAU CYNLLUNIO	
6.1	Rhif Cais : C21/1197/20/CC Lleoliad : Aber Cottages, Felinheli, LL56 4JY Bwriad:gwneud gwaith i goeden oddi fewn i ardal Gadwraeth Aberpwll - DIM GWRTHWYNEBIAD	CLERC
6.2	Rhif Cais .: C21/1203/20/DT Lleoliad : 21, Ger Y Nant Ger Y Nant, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4PF Bwriad : Estyniad un llawr a deulawr yn y cefn – DIM GWRTHWYNEBIAD	CLERC
603	Ymgynghoriad cyhoeddus: canllaw Cynllunio Atodol Drafft -	CLERC

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	Safle Treftadaeth Y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewinol Cymru (Drafft Ymgynghorol). - CYTUNO GYDA'R EGWYDDORION	
7.0	PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANAU	
7.1	Cafwyd adroddiad bod twll ar Ffordd Allt Dinas a bod y mater wedi ei anfon at sylw Cyngor Gwynedd drwy ddefnyddio'r App.	EW/DW
7.2	Mae un panel o'r Cysgodfan Bws wedi ei lanhau gyda dim cemegau ond dwr, sebon a bôn braich; nid oedd wedi cymryd mwy nag awr. Penderfynwyd y byddai'r Cynghorydd Daniel Williams yn gofyn am bris gogyfer glanhau'r panel arall oddi wrth gontractwr lleol. Bydd y Cynghorydd yn hysbysu'r Cyngor o'r pris ac os yn rhesymol byddai hawl i symud ymlaen a'r gwaith glanhau.	DW
7.3	Cafwyd gwybodaeth bod tirlithriad wedi bod ar ochr Ffordd Gaernarfon gyferbyn a safle'r hen fodurdy. Roedd y Cynghorydd Gareth Griffiths wedi ei alw allan ac wedi tynnu lluniau ac anfon y mater ymlaen at briffyrdd. Mae problem dwr ar y tir uwchben. Dywedodd y Cynghorydd Sir y byddai ef yn delio a'r mater.	G.G.
7.4	Penderfynwyd hefyd oherwydd y sefyllfa ariannol byddai'r prosiect i gyflwyno cysgodfan bws yn y safle bws gyferbyn a Cwrt Menai yn cael ei rhoi yn ôl am y tro.	
8.0	LLWYBRAU A LON LAS	
8.1	Cafwyd gwybodaeth gan Bwyd Bendigedig eu bod wedi bod yn llwyddiannus yn derbyn grant Môn a Menai. Yn sgil hyn aeth y Cynghorydd Daniel Williams i ymweld ag un o'r swyddogion ar y safle ger Penybryn (ardal lle'r oedd offer chwarae o'r blaen) rhoddwyd eglurhad o fwriad y grŵp i osod gwllâu blodau uchel a fyddai pobl fregus ac efallai mewn cadeiriau olwyn yn gallu ymddiried mewn eu garddio yno ynghyd a choed ffrwythau. Mae'r un grŵp wedi derbyn arian oddi wrth Felingylchu a'u bwriad yw rhoi offer eistedd a bwyta o fewn y Cae Chwarae a hefyd gwllâu blodau wedi eu codi ger ardal y cychod ar Lan y Môr. Nid oedd gan y Cyngor wrthwynebiad. Mae 7 mainc ar Lan y Môr yn perthyn i Gyngor Gwynedd, efalla bod modd symud y fainc o eiddo'r Cyngor oddi wrth y Cae Chwarae a'u gosod ar Lan y Môr. Byddai hyn wedyn yn sicrhau bod popeth oddi fewn i'r Cae Chwarae o dan gyfrifoldeb y Cyngor Cymuned a'r Meinciau ar y Lan y Môr yn gyfrifoldeb i Gyngor Gwynedd. Y Clerc i anfon at Bwyd Bendigedig i'w hysbysebu bod y Cyngor yn cefnogi'r fenter ger Penybryn a hefyd o fewn y Cae Chwarae.	DW/CLERC
9.0	MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA	
9.1	Dim adroddiad pellach. Adroddiad am safle Moria i'w weld yn 5.6.	CLERC
10.0	PROSIECTAU	
10.1	Gweler eitem 5.5	
11.0	NEUADD GOFFA A CHLOC	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

11.1	Gwaith ar lawr y neuadd wedi cychwyn. Mae allwedd er mwyn mynediad wedi ei dynnu o'r "keysafe" ar hyn o bryd, i sicrhau nad oedd neb yn cael mynediad tra bod rhan o'r llawr wedi ei godi. Dim modd sicrhau cadw rhan o'r leino sydd ar y llawr.	
11.2	Wrth gychwyn gwaith y llawr mae mater o rwyd wedi ei ddarganfod ar yr RSJ sydd yn dal y prosceniwm arch. Nid yw haearn wedi cracio a does dim symudiad wedi bod. Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams ei fod wedi cysylltu â'r pensaer er mwyn cael Cyngor am beiriannydd strwythurol. Dywedodd byddai'r cwmni Datrys yn gallu rhoi sylw i'r mater. Bydd cyfarfod gyda pheiriannydd strwythurol bore dydd Gwener am 9.30. Bydd y Cynghorydd Daniel Williams yn hysbysu'r Cyngor o unrhyw ddatblygiad yn y mater. Yn ychwanegol mae gwaith o osod mynediad o'r storfa gwaelod i hen safle'r boiler wedi ei wneud gyda lintel concriid wedi ei osod.	DW/CLERC
12.0	GWEFAN	
	Gwaith yn parhau i ddiweddarau'r wefan. Dywedodd y Cynghorydd Nerys John bod problem gyda ffurflenni ceisiadau cymorth ariannol y Cyngor ar y wefan oherwydd nid oedd pobl yn gallu eu llenwi yn ddigidol. Y Clerc i edrych i mewn i'r mater hyn.	CLERC/CR
13.0	CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL	
	Mae giât y cynllun llifogydd wedi derbyn sylw ac mae'r ongl bellach wedi ei sortio am y tro. Bydd angen newid y colfach. Er mwyn helpu gyda'r gwaith o adrodd am ddiffyg y gullies i dderbyn dŵr penderfynwyd gwneud cais am gynllun yn dangos gullies y Felinheli gan Gyngor Gwynedd.	EW/CLERC
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:21	
Llofnod:		Dyddiad:

ATODIAD 1

**CYLLIDEB DRAFFT 2022 -
2023 DRAFT BUDGET**

PENNAWD	GWARIANT HYD 30/11/2021	GWARIANT ESTYNNEDIG I 31/3/2022	DRAFFT 2022-2022
Salaries	7086.12	10852.05	9924
pension	443.22	696.58	711.36
Administration	568.46	641	750
Translation			
Maintenance - gwair		3270.18	3270.18
maintenance - gwair - cae chwarae Lan y Môr			367.23
Utilities	1740.55	2874	4000
Subscriptions	430	616	650
Insurance	1925.84	1925.84	2000
Cemetery	1350	1350	2000
Neuadd	1516.88	9375.79	4000
Llwybrau	700	1000	1500
Clock	168	168	168
Community Grants		5500	5500
Audit	210	210	250
Website	163.15	571.15	600
Clerk's Allowance	460	920	920
Car Park	528	528	250
Amrywiol	573.87	600	2000
Treth Cymunedol			
Hyfforddi	54	54	500
Toiledau	4000	4000	4000
Arosfannau			0
Gwelliannau Cymdeithasol - Cae Chwarae	12432	32246.4	2000
Safle Moria		2988	500
Etholiad			1000
Independent Remuneration		1500	1950
SWM CYFWNG			
	34350.09	81886.99	48810.77

**Arian yn y banc
1/12/2021**

49471.92

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Gwahaniaeth rhwng
gwariant hyd at
30/11/2021 a gwariant
estynedig hyd at
31/3/2022

47536.9

**Arian estynedig yn y
bank 31/3/2022**

1935.02

Cyfrif cadw

15000

	INCWM HYD AT 30/11/2021	INCWM ESTYNEDIG 31/3/2022	INCWM ESTYNEDIG 2022- 2023
PRECEPT	40,000		40,000
NEUADD	710		1200
MYNWENT	2005		2600
FURLOUGH	672		0
PORI	4		4
TAW		3026.38	3500
cyfanswm	43,391	46,417	47,304

PRECEPT - EFFAITH CODI

1000	0.86
2000	1.72
3000	2.58
4000	3.44
5000	4.3
6000	5.16
7000	6.02
8000	6.88
9000	7.74
10000	8.6